

## Gweledigaeth, Cennad, nodau, gwerthoedd ac ymddygiadau

### Gweledigaeth ...

I fod yn undeb llafur sy'n tyfu yn ei maint a'i dylanwad ac sy'n cael ei barchu'n fawr iawn gan aelodau gwaith cymdeithasol, proffesiwn gwaith cymdeithasol, cyflogwyr a'r Llywodraeth fel ei gilydd, gyda lefel uchel o deyrngarwch ag actiffaeth. Mae Pwyllgor Gwaith SWU wedi tyngu i gyflawni'r Weledigaeth hon.

### Cennad ...

Undeb Llafur sy'n ymroddedig i weithwyr cymdeithasol proffesiynol yw Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol (SWU). Yn wahanol i undebau llafur eraill, mae SWU yn gallu cynnig cynrychiolaeth i chi gan weithiwr cymdeithasol cymwys - rhywun sy'n deall y cod ymddygiad a sut beth yw bod yn weithiwr cymdeithasol ymarferol. Ein cennad yw i gael ein cydnabod gan ein haelodau i fod yr undeb llafur orau i Weithwyr Cymdeithasol.

Fe wneir hyn trwy:

- Ein gwasanaethau Cyflogaeth A&R, Pwyllgor Gwaith SWU a'n cynrychiolwyr ardderchog.
- Effeithiolrwydd cynrychiolaeth cyflogaeth i'n haelodau.
- Y dylanwad positif sydd gennym ar y berthynas rhwng gweithwyr cymdeithasol a'r llywodraeth ar drywydd amcanion a gwerthoedd undebau llafur sy'n berthnasol i waith cymdeithasol.
- Dolenni pellach gyda Mudiadau Gwaith Cymdeithasol Rhyngwladol.

### Nodau ...

- Rhoi gwasanaethau undeb llafur i'n Haelodau, yn cynnwys cyngor, cymorth a chynrychiolaeth, cyfreithiol neu arall, a manteision eraill yn ymwneud a materion yn deillio o neu ynglŷn â'u cyflogaeth fel gweithwyr cymdeithasol cofrestredig neu fel myfyrwyr gwaith cymdeithasol.
- Bydd SWU yn ymdrechu i wella telerau ac amodau Gweithwyr Cymdeithasol a brwydro am well adnoddau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn.

### Gwerthoedd ac Ymddygiadau ...

Mae ein gwerthoedd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau ein bod rhoi gwasanaeth arbennig i'n haelodau ac i gynnal ein hannibyniaeth.

Bydd SWU a'r rhai a gynrychiolir ganddynt yn:

- Gweithredu gyda gonestrwydd ac egwyddor yn unol â chod moeseg BASW;
- Cydweithio gyda'n gilydd;
- Gweithredu mewn dull agored, democrataidd a chynrychiolaidd
- Ymdrechu i fod yn ardderchog a pheidio amddiffyn ymarferiad gwael.
- Bod yn agored a thryloyw yn holl weithgareddau a chronfeydd ein hundeb
- Cefnogi egwyddorion hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol ar draws y byd.